

Y Pwyllgor Cyllid
**Gwrandawriad cyn penodi – yr
ymgeisydd a ffefrir ar gyfer
swydd Cadeirydd Awdurdod
Refeniw Cymru**

Chwefror 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid
**Gwrandawriad cyn penodi – yr
ymgeisydd a ffefrir ar gyfer
swydd Cadeirydd Awdurdod
Refeniw Cymru**

Chwefror 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Simon Thomas AC (Cadeirydd)
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Eluned Morgan AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



Mark Reckless AC
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberafan

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Crynodeb	6
01. Cefndir	7
02. Gofynion y swydd.....	9
03. Yr ymgeisydd a ffefrir	11
Atodiad	12

Rhagair y Cadeirydd

Ar 16 Chwefror 2017 cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawriad cyn penodi gyda Kathryn Bishop, yr ymgeisydd a ffefrir gan y Llywodraeth ar gyfer swydd Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru.

Croesawodd y Pwyllgor y cyfle i gael y gwrandawriad hwn, ac mae'n ddiolchgar i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol am ei ymrwymiad i sicrhau y cafodd y Pwyllgor y cyfle i gael y gwrandawriad hwn. Credaf yn gryf fod gwrandawriadau cyn penodi yn cynyddu atebolrwydd penodiadau cyhoeddus ac yn cyfrannu at sicrhau y cynhelir safonau uchel. Er bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r cyfle, credwn y gellid gwneud gwelliannau i'r broses hon a byddaf yn cysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Llywydd i ddatblygu hyn.

Wrth gynnal y gwrandawriad hwn cyn penodi, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i holi'r ymgeisydd am ei phrofiad blaenorol a'i dyheadau ar gyfer sbarduno'r broses o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru yn llwyddiannus, maes sydd wedi bod yn destun pryder i'r Pwyllgor yn y gorffennol.

Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd yn y gwrandawriad, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod yr ymgeisydd a ffefrir yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd hon, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda Ms Bishop yn y dyfodol.



Simon Thomas AC
Cadeirydd

Crynodeb

Ar 16 Chwefror 2017 cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawriad cyn penodi gyda Kathryn Bishop, yr ymgeisydd a ffefrir gan y Llywodraeth ar gyfer swydd Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru. Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd yn y gwrandawriad hwn, daeth mwyafrif y pwyllgor i'r casgliad bod Ms Bishop yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd.

Nid oedd un aelod yn cytuno, gan fynegi amheuan nad oedd Ms Bishop wedi dangos yn ddigonol unrhyw wersi perthnasol a ddysgodd yn ei rôl anweithredol yn Asiantaeth Ffiniau'r DU 2010-12, ar adeg lle roedd adroddiadau o fethiannau llywodraethu.

01. Cefndir

Awdurdod Cyllid Cymru

1. Pasiwyd y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) gan y Cynulliad ar 8 Mawrth 2016, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2016. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodaeth Bwrdd yr Awdurdod (y Bwrdd).
2. O dan Adran 2 o'r Ddeddf, caiff Awdurdod Cyllid Cymru ei sefydlu fel corff corfforaethol â'i hunaniaeth gyfreithiol ei hun. Bydd yn gorff y Goron â statws adran anweinidogol, yn wahanol i statws corff a noddir gan Lywodraeth Cymru.¹
3. Mae Adran 3 o'r Ddeddf yn nodi aelodaeth y bwrdd, gan gynnwys penodi aelodau anweithredol a etholir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y Cadeirydd. Mae Adran 4 yn nodi swyddi a fyddai'n anghymhwys person rhag cael ei benodi'n aelod anweithredol o'r bwrdd.
4. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gwbl weithredol ym mis Ebrill 2018 ac i ddechrau bydd yn gyfrifol am gasglu'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gyda lle i ehangu i fod yn gyfrifol am drethi datganoledig eraill yn y dyfodol.

Y broses recriwtio

5. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd ar 27 Hydref 2016 yn cynnig, fel rhan o'r broses recriwtio, fod un o bwyllgorau'r Cynulliad yn cynnal gwrandawriad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Cynigiodd y Llywydd y byddai'n briodol i'r Pwyllgor Cyllid wneud hyn.
6. Cafodd rolau Cadeirydd ac aelodau anweithredol y bwrdd eu hysbysebu ar 29 Tachwedd 2016, ac roedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar 3 Ionawr 2017.
7. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru wasanaethau ymgynghorwyr chwilio, Gatenby Sanderson i recriwtio i'r swydd hon. Rhoddwyd cyhoedduswydd i'r hysbyseb yn y ffyrdd a ganlyn:
 - Gwefan Llywodraeth Cymru;
 - Ffrwd Twitter Trysorlys Cymru a Llywodraeth Cymru;
 - Cylchlythyr Swyddfa'r Cabinet;
 - Rhestr ddosbarthu penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru;
 - Rhwydweithiau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru;
 - Rhwydweithiau'r Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru;
 - Rhwydwaith Women in Tax;
 - Golwg 360;
 - Sunday Times;
 - JobsWales;

¹ Y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), [Nodiadau Esboniadol](#)

- Nendonboards.com;
- Nonexecutivedirectors.com.

8. Roedd thua phum wythnos ar gael i anfon y ceisiadau, ac roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu CV a datganiad personol yn amlinellu sut y maent yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y disgrifiad swydd. Daeth un ar bymtheg o geisiadau i law gan chwe menyw a deg o ddyinion.

9. Lluniodd panel restr hir ar 6 Ionawr 2017, a dewisiwyd saith o'r ymgeiswyr ar gyfer cyfweiliad rhagarweiniol. Cafodd hyn ei leihau ymhellach i bedwar ymgeisydd yn dilyn cyfarfod ar gyfer llunio'r rhestr fer ar 16 Ionawr 2017. Yn dilyn ystyriaeth bellach, gwrthododd un ymgeisydd gyfweiliad. Dyma aelodau'r panel:

- Rosie Varley - Asesydd Penodiadau Cyhoeddus, Cadeirydd y Panel;
- June Milligan - Comisiynydd Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- Andrew Jeffreys - Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru;
- Georgina Haarhoff - Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Trethi a Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru;
- James Owen - Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Arbenigol a Phobl, Llywodraeth Cymru.

10. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar 1 Chwefror 2017 lle roedd gofyn i ymgeiswyr roi cyflwyniad ac fe'u holwyd ar y meini prawf a nodir yn y disgrifiad swydd.

11. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawriad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir, Kathryn Bishop, ar 16 Chwefror 2017.

02. Gofynion y swydd

Manyleb y swydd a'r person

- 12.** Mae Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru yn benodiad a wneir gan Weinidogion Cymru, ac a reoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.
- 13.** Yn ôl pecyn yr ymgeisydd, caiff yr ymgeisydd llwyddiannus ei benodi am gyfnod cychwynnol o hyd at dair blynedd ac, yn amodol ar adolygiad boddhaol, gellir ymestyn y swydd hon i gyfanswm o ddeng mlynedd.²
- 14.** Rhagwelir y bydd angen ymrwymo 2-3 diwrnod y mis yn ystod y cyfnod gweithredu, gan gynyddu i 4-5 diwrnod ar ôl sefydlu'r rôl yn ffurfiol. Y gyfradd tâl am hyn yw £400 y dydd.³
- 15.** Yn ôl y disgrifiad swydd, byddai angen i'r ymgeisydd llwyddiannus wneud y canlynol:
- darparu arweinyddiaeth glir a chyfeiriad strategol, cynnal safonau uchel o ran rheoleidd-dra a phriodoldeb a gweithredu fel llysgennad ar gyfer y sefydliad;
 - herio a gwella perfformiad Awdurdod Cyllid Cymru a chwarae rhan allweddol yn cynrychioli'r sefydliad;
 - meithrin cydberthynas gydag ystod eang o randdeiliaid;
 - chwarae rhan yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru, gan gynnwys datblygu Siarter Trethdalwyr a sefydlu strategaeth ar gyfer y sefydliad.⁴
- 16.** Yn ôl manyleb y person, rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar brofiad mewn un neu fwy o'r meysydd a ganlyn:
- Treth;
 - Cyllid;
 - Archwilio a risg;
 - Gwasanaethau digidol â llawer o ddata;
 - Amgylcheddau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid;
 - Y gyfraith;
 - Amrywiaeth a chynhwysiant;
 - Y sector cyhoeddus.
- 17.** Roedd meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd yn cynnwys gwybodaeth am ddatganoli, dealltwriaeth ehangach o'r iaith Gymraeg a materion sy'n effeithio ar Gymru, safonau uchel o onestrwydd, ymrwymiad i werthoedd gwasanaethau cyhoeddus a'r gallu i weithio mewn maes sensitif, weithiau o dan bwysau craffu cyhoeddus a gwleidyddol.⁵

² Llywodraeth Cymru, [Swydd wag - Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 29 Tachwedd 2016

³ Llywodraeth Cymru, [Swydd wag - Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 29 Tachwedd 2016

⁴ Llywodraeth Cymru, [Swydd wag - Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 29 Tachwedd 2016

⁵ Llywodraeth Cymru, [Swydd wag - Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru](#), 29 Tachwedd 2016

18. Roedd meini prawf dymunol yn cynnwys y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â phrofiad blaenorol o gefnogi'r broses o ddatblygu a sefydlu Bwrdd newydd.⁶

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y dull o recriwtio. Fodd bynnag, mae'n nodi na fydd darpariaeth Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd gael ei benodi am 'gyfnod cychwynnol o hyd at dair blynedd ac, yn amodol ar adolygiad boddhaol, gellir ymestyn y swydd hon i gyfanswm o ddeng mlynedd'. Bydd y Ddeddf yn caniatáu i'r Cadeirydd gael ei ail-benodi unwaith ac am gyfnod o ddim mwy na phum mlynedd, a dyna pam na all yr ymgeisydd cyntaf wasanaethu am fwy nag wyth mlynedd.

⁶ Llywodraeth Cymru, Swydd wag - Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru, 29 Tachwedd 2016

03. Yr ymgeisydd a ffefrir

Yr ymgeisydd

19. Cafodd y Pwyllgor fanylion am yr ymgeisydd a ffefrir, Kathryn Bishop, ddydd Llun 13 Chwefror 2016. Cafodd y Pwyllgor CV, sy'n dangos bod gan Ms Bishop dros 30 mlynedd o brofiad mewn amryw o sefydliadau a bod ganddi gefndir mewn Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth. Penodwyd Ms Bishop yn gomisiynydd gwasanaeth sifil ym mis Ebrill 2012 ac roedd yn gweithredu fel Prif Gomisiynydd dros dro y Gwasanaeth Sifil o fis Ebrill i fis Medi 2016. At hynny, mae wedi dal nifer o swyddi cyfarwyddwr anweithredol o fewn llywodraeth, gan gynnwys Asiantaeth Ffiniau'r DU, Swyddfa Eiddo Deallusol y DU a Llywodraeth Cymru. Atodir copi o CV Ms Bishop. Cynhaliodd y Pwyllgor y gwrandawriad cyn penodi gyda'r bwriad o ddeall cymhwysedd proffesiynol Ms Bishop, sut y mae'n bwriadu ymgymryd â'r rôl a pha brofiad ac arbenigedd sydd ganddi sy'n berthnasol i'r rôl.

20. Yn ystod y gwrandawriad, archwiliodd y Pwyllgor y meysydd a ganlyn gyda Ms Bishop:

- ei chefnidir a'i phrofiad proffesiynol;
- gwaith Awdurdod Cyllid Cymru, a'i dyheadau.

21. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedodd Ms Bishop ei bod yn awyddus i ymgymryd â'r rôl bwysig hon. Roedd Ms Bishop yn cydnabod bod Awdurdod Cyllid Cymru yn gorff newydd ac y byddai angen gwneud gwaith i sefydlu'r Awdurdod yn effeithiol. Dywedodd Ms Bishop y credai fod angen i'r Awdurdod a'r bwrdd fod yn hyblyg, ac y bydd angen iddynt gydweithio'n effeithiol. Pwysleisiodd Ms Bishop bwysigrwydd ei chydberthynas ag Aelodau anweithredol eraill a'r uwch-dîm rheoli. Dywedodd ei bod yn gobeithio meithrin cydberthnasau gwaith adeiladol yn seiliedig arni'n darparu her a chefnogaeth.

22. Roedd Ms Bishop yn derbyn y ffaith ei bod yn bwysig meddu ar y sgiliau cywir ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru, ac roedd yn gobeithio gallu bod yn rhan o'r gweithdrefnau recriwtio sydd i ddod er mwyn ychwanegu gwerth at y prosesau hyn.

23. Gellir gweld trawsgrifiad o'r sesiwn dystiolaeth ar [dudalennau gwe y Pwyllgor Cyllid](#).

Addasrwydd yr ymgeisydd

24. Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law, cred y Pwyllgor fod Ms Bishop yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd a dymunir yn dda iddi yn y swydd hon.

Casgliad 2. Ar 16 Chwefror 2017 cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawriad cyn penodi gyda Kathryn Bishop, yr ymgeisydd a ffefrir gan y Llywodraeth ar gyfer swydd Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru. Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd yn y gwrandawriad hwn, daeth mwyafrif y pwyllgor i'r casgliad bod Ms Bishop yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd.

Nid oedd un aelod yn cytuno, gan fynegi amheuan nad oedd Ms Bishop wedi dangos yn ddigonol unrhyw wersi perthnasol a ddysgodd yn ei rôl anweithredol yn Asiantaeth Ffiniau'r DU 2010-12, ar adeg lle roedd adroddiadau o fethiannau llywodraethu.

Atodiad

Kathryn Bishop

- 2012 – now **Civil Service Commissioner: Interim First Civil Service Commissioner**
- Regulating all appointments into the Civil Service and promoting and monitoring the application of the Civil Service Code. (Interim 1CSC April to October 2016)
- 2004 – now **Associate Fellow, Saïd Business School, University of Oxford**
- Designing and delivering executive development for private and public sector clients; Associate Fellow, Green Templeton College.
- 1999 – now **Director, Naughton Consulting Ltd**
- Managing projects for clients, including assistance with strategic planning for private sector organisations, executive agencies, NHS Trusts, and several NDPBs.
- 2000 - 2012 **Non-Executive Director roles in the public sector**
- UK Border Agency (2010-2012);
Welsh Assembly Government (2003-2010);
The UK Intellectual Property Office (2000-2009).
- 2001 - 2004 **Head of Planning and Projects, University of the West of England**
- Developing and co-ordinating faculty and service planning process, working on implementation of University's five-year strategic plan, and managing university development projects.
- 1998 – 1999 **Director, Business Transformation, Eagle Star, Allied Dunbar & Zurich**
- As Board Director of commercial insurance business, directed business transformation programme (a project team of 80 people and budget of £3m); planned and managed the integration of the commercial insurance divisions.
- 1994 – 1998 **Programme Director, Allied Dunbar/ Eagle Star Life**
- Reporting directly to CEO and Chairman, planned and co-ordinated a programme of 8 major projects, linking the companies' brands and operations.
- Led programme of 11 major transformation projects to reduce operating cost by £25m; managed the development of the annual business plans, as part of Board-level team, including strategy formulation and subsequent operational planning.
- 1992 – 1994 **Personnel Development Director, Allied Dunbar**
- Directed Personnel Operations, consisting of 5 Personnel Managers and their teams with an operating budget of £600,000; managed Training & Development department and Internal Communications team; implemented new Director Development Programme for senior management.
- 1990 – 1992 **Assistant Director, Business Consulting, Allied Dunbar**

Established a professional team of internal consultants and project managers and delivered strategic and operational projects, such as distribution strategy for sales directors and productivity improvement in administration.

1981 – 1990 **Senior Manager, Accenture**

Sold, planned and managed business strategy, organisational change and systems implementation projects, for financial services clients, e.g. for a major UK clearing bank, in a transformation programme costing £35m over 3 years.

Education:

1989 **Visiting Fellow, St Hilda's College, Oxford**

1979 – 1981 **Jesus College, Oxford** – M. Phil. in English Literature

1976 – 1979 **Wellesley College, USA** – B. A. (Hons.), 1st Class, Phi Beta Kappa

Awards and Other Experience :

2015 **European Foundation for Management Development Excellence in Practice**

2012 **European Foundation for Management Development – Case Study**

2015 – now **Chairman of the Board of Trustees, Dean Close Foundation** (an educational charity turning over £25million per annum).

2014 – now **Executive Education Board Member at the Saïd Business School**

Experience, Skills and Personal Qualities:

The experience set out above has helped to develop a variety of skills, principles and approaches which I bring to all my work:

As a Non-Executive Director: honed interpersonal skills; rapid but careful assimilation of complex situations; a conviction that adding value requires an understanding of what the organisation does, how and why; judicious use of external experience which can galvanise teams to think and act innovatively; an understanding that an effective NED listens twice as much as she speaks; experience of the interaction between the Civil Service and Ministers in the UK and in a devolved administration.

As a Board Director: an ability to balance action-oriented discussion of tactics and next steps with a thoughtful strategic perspective; a focus on the action which needs to conclude every discussion in the Board Room; a firm belief that attention to board process and dynamics has visible benefits in improved decision-making and implementation and that diversity is hugely valuable for a team in all its forms - psychological, functional, as well as the differences in race, gender and physical abilities.

As Civil Service Commissioner: extensive experience of the regulation of entry into the Civil Service at every level: using a range of interview and assessment approaches for selecting leaders; chairing panels of very senior colleagues with diverse views; hearing appeals and complaints on recruitment processes and breaches of the Civil Service Code.

As an Educator at Oxford: experience in working *with* the grain of the organisation but selecting the issues on which to drive for change; polite but fervent tenacity; experience of implementing change from outside, slowly but strategically.

As a Change Programme Director: vigorous project management to deliver on time and on budget, yoked with a visible sense of purpose; the ability to pursue a strategy and still capitalise on an unexpected opportunity.

As a Manager and Leader: to choose when to listen and when to talk, or to coach rather than direct; to work in multiple cultures and with international managers from hugely different backgrounds; the insight that giving others space to deliver and credit when they have done so can be their best development opportunity.